**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD: CYFARFOD 16 MEHEFIN YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU, BAE CAERDYDD**

## GOLWG GYFFREDINOL AR ECONOMI CYMRU

### Pwrpas

1. Rhoi crynodeb o'r sialensau sy'n wynebu economi Cymru fel y gall y Pwyllgor eu trafod.

   **Crynodeb**

2. Cymru sydd â'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) isaf (h y cyfanswm yr hyn a gynhyrchir) y pen ym Mhrydain. Gellir priodoli hyn i ddwy ffactor sydd yr un mor bwysig â'i gilydd. Yn gyntaf, am resymau_strwythurol neu hanesyddol, mae'r rheiny sydd â swydd yn cynhyrchu 9% fesul person yn llai na'r cyfartaledd yn y Deyrnas Unedig gyfan. Yn ail, mae oddeutu 6% yn llai o bobl o oedran gweithio yng Nghymru mewn swyddi, o'i gymharu â'r Deyrnas Unedig yn gyfan.
3. Mae cynhyrchiant isel yng Nghymru'n adlewyrchu strwythur diwydiannol a galwedigaethol Cymru. Mae sectorau ariannol a gwasanaethau busnes Cymru yn enwedig yn gymharol fychan (ac yn isel o ran cyflog). Mewn cyferbyniad, mae cynhyrchiant wedi bod yn gyson uwch fesul person yn y maes gweithgynhyrchu na'r cyfartaledd ar gyfer y Deyrnas Unedig. Mae cyflogau yn gymharol isel, hefyd am yr un rhesymau.
4. Nid cyfraddau diweithdra uchel yng Nghymru (sydd ond 1% yn uwch) sydd yn achosi'r cyfradd cyflogi isel, ond yn hytrach cyfradd uchel o anweithgarwch economaidd (pobl nad ydynt yn ddi-waith nac yn gweithio).

### Cefndir

### Prif nodweddion economi Cymru

- Mae cyfanswm lefelau cyflogaeth yng Nghymru yn weddol debyg i lefelau 1980. Ym mis Rhagfyr 1998 roedd ychydig dros filiwn o weithwyr, ac oddeutu 150,000 yn hunan-gyflogedig. Ym 1980 roedd ychydig dros filiwn o weithwyr ac oddeutu 125,000 yn hunan-gyflogedig.

- Mae'r nifer o weithwyr yn y sector gweithgynhyrchu wedi gostwng o 289,000 ym 1980 i 208,000 ym mis Rhagfyr 1998, sy'n cynnwys gostyngiadau arwyddocaol yn y meysydd dur, cemegol a pheirianneg mecanyddol. Mae cau'r pyllau glo wedi cyfrannu at 50,000 o

ostyngiad yn y sector Ynni a Dwr.

- Gwelwyd ehangu yn y sectorau Gwasanaethau Ariannol a Busnes (tua 50,000 yn rhagor o weithwyr nag ym 1980), Dosbarthu, Gwestai a Bwytai (tua 30,000), a Gweinyddu Cyhoeddus, Addysg ac Iechyd (tua 40,000).

- Er bod y nifer o swyddi yn y sector gweithgynhyrchu wedi disgyn ers 1980, y mae wedi aros yng nghyffiniau'r 210,000 dros y degawd diwethaf er i'r nifer sy'n gweithio yn y sector gweithgynhyrchu yng ngweddill y DU ddisgyn. Yn ogystal, mae siâr y sector gweithgynhyrchu o'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) wedi codi (i 29% ym 1996). Mae mewnfuddsoddi yn ogystal â gwendid y diwydiant gwasanaeth yng Nghymru wedi dylanwadu ar hyn.

- Mae'r siart a atodir yn dangos y dadansoddiad diweddaraf o GDP Cymru a'r DU. Mae strwythur Cymru yn weddol debyg i strwythur y DU, ond bod y cyfran sy'n gweithgynhyrchu yn arwyddocaol uwch, a bod addysg ac iechyd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU, ond bod gwasanaethau ariannol yn llawer is.

- Mae 21% o swyddi yn y sector gweithgynhyrchu – cyfran sy'n debyg i'r cyfrannau yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr,Gogledd Orllewin Lloegr, Efrog a Humberside, ond sy'n llawer is nag yn Nwyrain a Gorllewin Canolbarth Lloegr. Mae dros ddwy ran o dair o swyddi yn y sector gwasanaethu.

- O holl ranbarthau'r DU, Cymru sydd â'r cyfran isaf o bell ffordd o swyddi yn y Gwasanaethau Ariannol a Busnes (tua 10 y cant), ond y cyfran uchaf o swyddi gweithgynhyrchu, gweinyddu cyhoeddus, addysg, gwaith cymdeithasol ac iechyd.

- Cymru sydd â'r GDP isaf y pen o holl ranbarthau (safonol) Prydain (er bod Gogledd Iwerddon yn is) sef 82.2% o gyfartaledd y DU ym 1997 (ffigur diweddaraf).

- Yn Ebrill 1999, roedd diweithdra yn 5.5% (yn ôl nifer sy'n ymgeisio am fudd-dâl) o'i gymharu â 4.5% yn y DU, (er yn 1993 ac 1994, yn eithriadol, roedd cyfraddau Cymru yn agos iawn neu hyd yn oed yn is na'r gyfradd ar gyfer y DU).

- Mae canran y boblogaeth sydd o oedran gwaith ac sydd mewn swydd oddeutu 6% yn llai na'r cyfartaledd ar draws y DU yn gyfan. Esbonnir y gwahaniaeth yn y cyfraddau cyflogaeth i raddau helaeth, nid gan ddiweithdra, ond gan anweithgarwch economaidd (pobl sydd heb waith a gyfrir fel pobl nad ydynt yn chwilio am waith neu nad ydynt ar gael i weithio).

- Disgynnodd cyfartaledd enillion yng Nghymru o 97.9% o'r cyfartaledd Prydeinig i 88.2% ym 1990. Roedd enillion y flwyddyn hyd Ebrill 1998 yn 89.4% o'r cyfartaledd Prydeinig,

yn is nag unrhyw ranbarth arall heblaw Gogledd Ddwyrain Lloegr.

**Dadansoddi**

5. Mae gallu economi i esgor ar safonau byw uchel ar gyfer ei thrigolion yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar gyfanswm yr hyn y mae'n ei gynhyrchu (Cynnyrch Mewnwladol Crynswth), (er y gall taliadau trosglwyddo ac enillion o ranbarth arall neu a dalwyd i ranbarth arall effeithio ar safonau byw).
6. Mae GDP y pen yng Nghymru yn gyson ymhlith yr isaf ym Mhrydain. Cyfyd hyn oherwydd fod cyfran llai o bobl Cymru mewn swyddi a hefyd gan fod cynnyrch y rhai sydd yn cael eu cyflogi yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y DU.

7. Mae dadansoddiad o'r GDP fesul sector yn dangos y gellir priodoli cynhyrchiant isel fesul gweithiwr a gyflogir o'i gymharu â'r DU i'r ffaith fod cynhyrchiant yn isel o fewn y gwasanaethau preifat, yn enwedig y gwasanaethau ariannol a busnes. Ceir cynhyrchiant isel lle ceir prinder swyddi lle telir cyflogau uwch. Mewn cyferbyniad â hyn, mae cynhyrchiant yn y sector gweithgynhyrchu wedi parhau fel rheol yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU. Mae'r lefelau cynhyrchiant hyn yn ganlyniad i'r amrywiaeth o ddiwydiannau sydd gennym (yn enwedig y cyfran isel o wasanaethau ariannol a busnes) yn ogystal â'r mathau o swyddi o fewn y diwydiannau hynny (cyfran llai o swyddi lefel uwch). Mae'r cymysgedd o sectorau a galwedigaethau yn gweithio yn ein herbyn.
8. Ymddengys bod gostyngiad mewn enillion cymharol yng Nghymru (sy'n cyfrif am gyfran helaeth o'r GDP, er bod arian rhent ac incwm o elw hefyd yn arwyddocaol) yn ystod yr 1980au yn gysylltiedig nid yn unig â lleihad yn nifer y swyddi diwydiannol cyflogau uchel, ond hefyd â'r cynnydd mewn incwm, yn enwedig o fewn y gwasanaethau Ariannol a Busnes yn Ne Ddwyrain Lloegr na phrofodd Cymru mohono i'r un graddau. Mae rhychwant yr enillion cyfartalog yn rhanbarthau'r DU heblaw'r De Ddwyrain yn weddol denau.
9. Trwy ddidoli gwybodaeth am enillion a'u rhannu'n gategorïau manylach, gwelir mai'r cymysgedd o swyddi sydd gennym yng Nghymru yn hytrach na chyflogau is am gyflawni **union** yr un swyddi sy'n gyfrifol am gyflogau isel. **Mae** tystiolaeth fodd bynnag fod dynion Cymru'n ennill cyflogau is, hyd yn oed a chaniatau ar gyfer grwpiau eang (pobl broffesiynol, crefftwyr llaw ac ati), grwpiau diwydiannol eang yn ogystal â chymwysterau eang (Lefelau 'A', graddau ac ati).
10. Nid oes a wnelo'r ganran isel o'r boblogaeth sydd o oedran gweithio ond sydd heb swyddi o'i gymharu â gweddill Prydain lawer â diweithdra. Yr esboniad yn hytrach yw'r nifer helaeth o bobl sydd o oedran gweithio (447,000 yn ystod Gaeaf 1998/9 o'i gymharu â 103,000 sy'n ddiwaith [mesur yr ILO]) naill ai nad ydynt yn chwilio am swydd neu nad

ydynt ar gael i weithio. Eglurir y gyfradd uchel hon o segurdod gan y nifer uwch (pobl dros 50 oed gan amlaf) sy'n dweud eu bod yn segur oherwydd salwch tymor-hir.

**Argoelion Cyfredol**

11. Ffigyrau 1997 yw'r rhai diweddaraf ar gyfer GDP Cymru. Mae'r cyrff annibynnol (Cambridge Econometrics, Business Strategies Limited (BSL)) yn rhagweld y bydd y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth wedi tyfu o ryw 1.5% yn ystod 1998. Disgwylir ychydig iawn o gynnydd os o gwbl eleni ond disgwylir i'r economi weld cyfnod o gynnydd yn ystod ail hanner y flwyddyn a rhagwelir y bydd cynnydd o rhwng 1.3% (Cambridge Econometrics) a 2.0% (BSL) yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn cyd-fynd â'r hyn a ragwelir ar gyfer y DU.

12. Mae arolygon busnes yn awgrymu yr ailenynnir hyder wedi iselder hydref y flwyddyn ddiwethaf. Yn ystod y flwyddyn hyd Ebrill 1999, gwelwyd gostyngiad o 500 yn nifer y di-waith sy'n ymgeisio am fudd-dâl, er bod hyn yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Yn ogystal, gwelwyd cynnydd o 22,000 yn y rhai mewn gwaith. Ymddengys felly fod y rhagolygon ar gyfer y flwyddyn nesaf yn well.

**Casgliad**

13. Er mwyn codi GDP Cymru tuag at gyfartaledd y DU mae rhyw fath o gyfuniad o roi mwy o bobl mewn swyddi a chreu gwell swyddi yn ofynnol yn ôl pob tebyg.

**Cydymffurfio**

14. Gweler y papur er gwybodaeth. Ni chyfyd unrhyw faterion ynglyn â chydymffurfio.

**Goblygiadau Ariannol**

15. Dim

**Dadansoddiad Pellach**

16. Gellir cael dadansoddiad pellach yn 'Perfformiad Economaidd Cyffredinol Cymru', ar y fewnrwyd. Ceir hefyd ddetholiad o ystadegau economaidd defnyddiol , 'Economics Statistics Monthly' ar wefan y Gyfarwyddiaeth Ystadegol ar y Fewnrwyd.